



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion

Cynigion dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a
gynhelir ar gyfer y flwyddyn ysgol 2018/19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017

Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion

Cynulleidfa	Awdurdodau lleol yng Nghymru; cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; undebau athrawon; ESTYN; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Comisiynydd Plant Cymru.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Tîm Dysgu Proffesiynol, Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 0300 0255485 e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	Deddf Addysg (Cymru) 2014 www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=7186 Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig) www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1249/contents/made/welsh Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1462/contents/made/welsh

Cynnwys

1. Cefndir	2
2. Cynigion yr ymgynghoriad	4
3. Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law	5
4. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	6
5.Y ffordd ymlaen	14
6.Rhestr o'r ymatebwyr	15
Atodiad A: Hysbysiadau o dymhorau ysgol y cytunwyd arnynt	16
Atodiad B: Grwpiau o awdurdodau lleol	17

1. Cefndir

1.1 Newidiodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 y trefniadau ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yng Nghymru trwy gynnwys darpariaeth Cymru yn unig i Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). O ganlyniad, tra bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion, mae'n rhaid iddynt gydweithio'n awr i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosibl. Os nad ydynt yn gallu cytuno, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, yna mae Deddf 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau er mwyn sicrhau bod dyddiadau tymhorau yn gyson ledled Cymru.

1.2 Mae darpariaethau Deddf 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau a bennir ar gyfer pob ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig) yn eu hardaloedd nhw erbyn diwrnod gwaith olaf mis Awst (yn yr achos hwn, 31 Awst 2016 ar gyfer dyddiadau tymhorau 2018/19).

1.3 Roedd dyddiadau'r tymhorau a hysbyswyd gan awdurdodau lleol yn perthyn i ddau grŵp (gweler tudalen 16). Roedd Grŵp A yn cynnwys dyddiadau wedi'u cytuno gan 17 awdurdod lleol o dair o bedair ardal consortïwm Cymru tra bod Grŵp B yn cynnwys dyddiadau y cytunwyd arnynt gan yr holl awdurdodau yng nghonsortïwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae dadansoddiad o'r dyddiadau a bennwyd ar gyfer Grwpiau A a B i'w weld yn Atodiad B at dudalen 17 o'r ddogfen hon.

1.4 Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau yn dangos rhywfaint o gysondeb rhwng y ddau grŵp o ran y dyddiadau a bennwyd. Yr unig wahaniaeth yw'r rhai yn Hanner Tymor y Gwanwyn 2019. Mae Grŵp A wedi dewis 25 Chwefror i 1 Mawrth, a Grŵp B wedi dewis 18 Chwefror i 22 Chwefror.

1.5 Cyflwynodd pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wybodaeth am ddyddiadau tymhorau 2018/19 ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgol cymunedol arbennig ac ysgolion meithrin a gynhelir y maent yn gyfrifol am osod dyddiadau tymhorau ar eu cyfer ("ysgolion rheolaidd"). Erbyn 1 Tachwedd 2016, cafwyd hysbysiadau ar ran 86 o'r 165 (52%) o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yng Nghymru. Roedd 83 o'r hysbysiadau a lofnodwyd yn cyd-fynd â'u hawdurdodau lleol tra bod 3 ysgol Gatholig wedi dewis gwyliau Pasg gwahanol a olygai eu bod nhw'n dal yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Sanctaidd. O'r 83 o hysbysiadau, roedd 72 (87%) yn cyd-fynd â'u hawdurdodau yng Ngrŵp A ac 11 (13%) arall yn cyd-fynd â'u hawdurdodau yng Ngrŵp B.

1.6 O ran dyddiadau tymhorau heb eu dilysu, roedd 15 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr neu ysgolion sefydledig eraill wedi darparu dyddiadau tymhorau. Fel arfer, nid oedd y rhain wedi'u llofnodi, nid oeddynt yn gyflawn neu nid oeddynt wedi'u cadarnhau gan yr awdurdod lleol. Roedd 10 o'r rhain yn cyd-fynd â'u hawdurdod lleol yng Ngrŵp A a 5 yn cyd-fynd â'u hawdurdod lleol yng Ngrŵp B. Os ydym yn ychwanegu'r rhain at yr 86 hysbysiad wedi'u llofnodi byddai gennym gyfanswm o 101 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr neu ysgolion sefydledig sydd wedi darparu gwybodaeth am ddyddiadau eu tymhorau ar gyfer 2018/19 h.y. 61%.

1.7 Bu cynnydd yn lefel y cysondeb ar gyfer 2018/19 o gymharu â 2016/17 a 2017/18. Er gwaethaf eu hymdrechion, fodd bynnag, ni allai awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig gytuno ar holl ddyddiadau tymhorau eu hysgolion.

1.8 Felly, bu'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â'u dyddiadau tymhorau, er mwyn sicrhau dyddiadau cyson ledled y wlad

2. Cynigion yr ymgynghoriad

2.1 Cyn defnyddio’u pwerau cyfarwyddo, mae’n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad tri mis rhwng 12 Rhagfyr 2016 a 20 Mawrth 2017 yn holi am farn ar y dyddiadau tymhorau yr oedd Gweinidogion Cymru’n bwriadu eu cyflwyno ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19 ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru a’r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig. Cyhoeddwyd fersiwn addas i blant hefyd.

2.2 Y dyddiadau yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arnynt oedd y rhai a hysbyswyd gan fwyafrif yr awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru, h.y. rhai yng Ngrŵp A yr Atodiad. Roedd hyn ar y sail fod mwyafrif clir o awdurdodau lleol (17 i 5) ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (72 i 11) wedi dewis y dyddiadau hyn.

2.3 Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2018/19 yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arnynt oedd:

Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol	Dydd Llun 3 Medi 2018
Gwyliau hanner tymor yr hydref	Dydd Llun 29 Hydref 2018 i ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018
Gwyliau’r Nadolig	Dydd Llun 24 Rhagfyr 2018 i ddydd Gwener 4 Ionawr 2019
Hanner tymor y gwanwyn	Dydd Llun 25 Chwefror 2018 i ddydd Gwener 1 Mawrth 2019
Gwyliau’r Pasg	Dydd Llun 15 Ebrill 2019 i ddydd Gwener 26 Ebrill 2019
Hanner tymor y Sulgwyn	Dydd Llun 27 Mai 2019 i ddydd Gwener 31 Mai 2019
Diwrnod olaf yr ysgol	Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019

3. Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law

3.1 Cafwyd 123 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a gallwn eu rhannu i'r categorïau canlynol. Mae'r rhai na nododd pwy oeddent ar y ffurflen ymateb ar-lein wedi'u nodi fel "Arall", ynghyd â'r rhai a anfonodd ffurflenni ymateb anhysbys heb fanylion personol:

Athro	7	Llywodraethwr	0	Rhiant/gofalwr	1	Awdurdod esgobaethol	0
Awdurdod lleol	16	Ysgol	84	Undeb	5	Arall	10

3.2 Mae lefel yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cynyddu'n sylweddol ers 2017/18 pan gafwyd 55 o ymatebion, ac felly cynnydd o 223%. Y rheswm am y cynnydd sylweddol hwn yw'r holl ymatebion a gafwyd gan blant a phobl ifanc. O'r blaen, roedd fersiwn plant a phobl ifanc yn rhan o'r ymgynghoriad ar-lein, ond ychydig iawn o ymateb a gafwyd drwy'r ffurflen hon yn y ddau ymarferiad diwethaf, felly penderfynwyd rhoi'r gorau i ddefnyddio'r dull hwn o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a chafodd dulliau ymgysylltu eraill eu hystyried gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

3.3 Ar gyfer ymarferiad 2018/19, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y dylai swyddogion ymgysylltu â'u cysylltiadau ym meysydd llywodraethu ysgolion a chyfranogiad disgyblion, a gofyn iddyn nhw anfon y fersiwn hon ymlaen i'r ysgolion a sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb. Byddai unrhyw ymatebion sy'n dod i law fel hyn yn cael eu cyfrif fel ymatebion yr ymgynghoriad yn union fel y rhai sy'n cyrraedd drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein.

3.4 Cafwyd cyfanswm o 83 o ymatebion (67%) drwy'r fersiwn plant a phobl ifanc, er bod y rhan fwyaf yn deillio o'r un ysgol. Cyfrannodd un ysgol uwchradd Gymraeg (Ysgol Gyfun Gwent Is Coed) 59 (71%) o'r ymatebion hyn. Daeth 83 o ymatebion o 11 o ysgolion, yn amrywio o addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Roedd y fersiwn plant a phobl ifanc yn cynnwys dau gwestiwn o gymharu â phump ar y fersiwn ar-lein.

4. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.1 Oni nodir yn wahanol, mynegir canrannau drwy'r adroddiad hwn fel mesur o ymatebwyr i bob cwestiwn. Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

4.2 Gofynnodd y ddogfen ymgynghori un cwestiwn penodol ar ddyddiadau arfaethedig y tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig.

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2018/19 a bennir yn y tabl ar dudalen 8? Y cwestiwn cyfatebol ar y fersiwn plant a phobl ifanc oedd – Ydych chi'n credu bod y dyddiadau hyn yn syniad da?

4.3 Ymatebodd pob un o'r 123 i'r cwestiwn hwn. Roedd 56 (46%) 47 (38%) yn anghytuno ac felly'n cytuno â'r cynigion, tra'r oedd 47 (38%) yn anghytuno a 20 (16%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

4.4 **Roedd y 56 o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r dyddiadau arfaethedig yn cynnwys:**

- Pob un o'r 16 awdurdod lleol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt eisoes wedi cyflwyno'r dyddiadau hyn fel eu rhai dewisol. Fodd bynnag, roedd Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy o gonsortium y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a oedd wedi cyflwyno dyddiadau ychydig yn wahanol yn cytuno ar y sail mai dim ond mymryn yn wahanol oedd y dyddiadau arfaethedig hyn i'r rhai yr hysbyswyd wrth Llywodraeth Cymru.
- 33 o ymatebion gan fersiwn plant a phobl ifanc y ffurflen ymateb, a ddaeth yn bennaf oddi wrth ddisgyblion unigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dywedodd rhai bod cael yr un dyddiadau o gymorth, oherwydd efallai bod gan rai pobl aelodau o'r teulu mewn ysgolion gwahanol â dyddiadau gwahanol, a'u bod yn hoffi bod yn yr ysgol yn agos at y Nadolig, a'u bod yn gallu dathlu Gŵyl Dewi gartref gyda'u teuluoedd.
- Roedd 3 athro, 3 undeb gweithlu ysgolion a Llywodraethwyr Cymru hefyd yn cytuno â'r dyddiadau arfaethedig, ond roedd NASUWT yn siomedig *"disappointed to note that there appears to have been very little consultation at local authority level with the trade unions representing the education workforce when deciding on school term/holiday dates. The NASUWT maintains that the Welsh Government should take steps to ensure that there is proper consultation at a local level with workforce unions, prior to local authorities notifying the Welsh Government of their proposals"*.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.5 O safbwynt rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig ynglŷn â phwy i ymgynghori â nhw cyn cytuno ar ddyddiadau, fel y nodir uchod yr awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ddylai gadw'r cyfrifoldeb am bennu dyddiadau tymhorau. Nid yw'r trefniadau newydd yn Neddf Addysg 2014 yn newid hyn. Hefyd, maen nhw dan ddyletswydd nawr i drafod dyddiadau'r tymhorau ymysg ei gilydd, fel bod dyddiadau'r tymhorau naill ai'r un fath

neu cyn debyced ag y gallant fod. Y tu hwnt i hynny, mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu a ydynt am gynnal ymgynghoriad ychwanegol gyda'u gweithlu. Nid oes dim yn y trefniadau newydd sy'n rhwystro ysgolion rhag gwneud hynny.

4.6 **Roedd y 47 o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig yn cynnwys:**

- 34 o ymatebion ar fersiwn plant a phobl ifanc y ffurflen ymateb, y rhan fwyaf yn ddysgwyr a oedd yn credu bod cyfnod gwyliau'r Nadolig yn dechrau'n rhy agos at ddydd Nadolig ei hun. Roedd eraill yn anghytuno oherwydd materion yn ymwneud â Sioe Fawr Llanelwedd, ac roedd rhai am fod yn yr ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.
- Roedd undeb yr NUT hefyd yn anghytuno gan eu bod yn credu y dylai hanner tymor y gwanwyn fod yn gynt fel bod Dydd Gŵyl Dewi yn rhan o dymor yr ysgol, ac y byddai'n cynnig cyfleoedd diwylliannol i ddysgwyr a chyfleoedd i drefnu gwersi arloesol os oeddent yn yr ysgol ar y diwrnod hwnnw. Roedd un ymateb ar ran ysgol hefyd yn anghytuno am yr un rheswm.
- Anfonodd Cymdeithas Sioe Frenhinol Cymru dri ymateb ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Phwyllgorau Cyngori Ceredigion a Sir Benfro. Nid oeddent yn dymuno gweld dyddiadau tymhorau ysgolion yn cyd-daro â'r Sioe Fawr, y credant sy'n ddigwyddiad o bwys addysgol, diwylliannol a chymdeithasol mawr ac yn cael ei fynychu gan lawer o blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, cynigiwyd dyddiadau amgen a fyddai'n caniatáu i athrawon a phlant fynychu pob diwrnod o'r Sioe. *Nodi y byddai'r cynigion cyfredol yn golygu bod ysgolion ar agor ar ddiwrnod cyntaf y Sioe.* Roedd Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru hefyd yn anghytuno â'r dyddiadau am resymau yn ymwneud â'r Sioe Fawr a manteision addysgol ac ieithyddol (Cymraeg) y sioe ymhlith eraill.
- Roedd yr ymatebwyr eraill a anghytunodd yn cynnwys 4 athro, 1 rhiant/gofalwr, 1 ymatebydd anhysbys ac unigolyn a nododd ei hun fel "arall". Ymhlith y pryderon a godwyd oedd hyd y tymor, gan ddweud y byddai'n achosi problemau i athrawon gynllunio ar gyfer tymhorau anghyfartal a'r ffaith bod plant yn blino os yw hyd y tymhorau'n rhy hir. Hefyd, pryderon y gallai gorffen tymhorau ar ddiwrnodau od, h.y. dydd Llun, achosi absenoldebau. Dywedodd un arall fod y Pasg yn rhy hwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.8 Cytunwyd ar 24 Rhagfyr 2018 i 4 Ionawr 2019 fel gwyliau'r Nadolig gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol a'r 86 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir/ariennir a anfonodd hysbysiadau dyddiadau tymhorau wedi'u llofnodi. Tra'r ydym yn deall y sylwadau a'r pryderon am ysgolion yn cau'n rhy agos at ddydd Nadolig, cytunwyd ar hyn gan bawb a gyflwynodd hysbysiadau.

4.9 Mae Llywodraeth Cymru'n nodi y byddai'n well gan rai dysgwyr ac athrawon fod yn yr ysgol i ddathlu a chynllunio gwersi ar bwysigrwydd Dydd Gŵyl Dewi neu i fynd ar deithiau ysgol pwysig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r ffaith y gall fod yn well gan lawer fod i ffwrdd o'r ysgol neu'r gwaith yn enwedig y rhai sy'n credu y dylai Gŵyl Dewi fod yn ddiwrnod o wyliau cenedlaethol yng Nghymru. Tra'r ydym wedi ystyried dyddiadau tymhorau a bennwyd gan awdurdodau lleol yng Ngrŵp B yn cynnwys hanner

tymor y Gwanwyn wythnos ynghynt a olygai bod ysgolion ar agor Ddydd Gŵyl Dewi, dywedodd 4 o'r 5 awdurdod lleol yn y grŵp hwn a ymatebodd i'r ymgynghoriad y byddant yn hapus i fabwysiadu'r dyddiadau tymhorau a bennwyd gan fwyafrif yr awdurdodau lleol, sy'n golygu y bydd ysgolion ar gau Ddydd Gŵyl Dewi.

4.10 Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi pwysigrwydd diwylliannol, economaidd ac addysgol y Sioe Fawr yn llwyr, ac rydym bob amser yn ystyried hyn wrth gynnig dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni. Wrth benderfynu ar y cynigion hyn, nododd Gweinidogion Cymru fod awdurdod lleol Powys (lle cynhelir y Sioe) wedi hysbysu'r Gweinidogion am yr un dyddiadau tymhorau sy'n cael eu cynnig, h.y. dyddiadau sy'n cynnwys ysgolion ar agor ar ddiwrnod cynta'r Sioe. Roedd yr holl hysbysiadau eraill (ac eithrio un gan Ysgol Gatholig oedd am orffen y tymor ar ail ddiwrnod y Sioe) hefyd wedi dewis gorffen y tymor ar y diwrnod hwn. Nid yw'r dyddiadau hyn yn gosod cysail i'r Sioe Fawr, gan fod dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Bowys yn 2013 yn golygu bod ysgolion ar agor ar ddau ddiwrnod cyntaf sioe y flwyddyn honno, ac ar agor ar ddiwrnod cynta'r Sioe Fawr yn 2014 a 2015.

4.11 Ni fyddai plant a phobl ifanc yn colli'r cyfleoedd addysgol a diwylliannol a gynigir gan y Sioe Fawr gan y byddant yn gallu mynychu bob dydd heblaw am ddydd Llun.

4.12 Disgwylir i awdurdodau lleol ystyried sawl ffactor wrth bennu dyddiadau tymhorau - gan gynnwys hyd tymhorau gyda'r nod o sicrhau eu bod mor gyfartal â phosib. Tra'r ydym yn deall pryderon am ysgolion yn gorffen ar ddydd Llun, roedd pob awdurdod lleol ac 85 o'r 86 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig a anfonodd hysbysiadau yn cytuno ar y dyddiad hwn (22 Gorffennaf 2019), yn ogystal ag un hysbysiad yn nodi diwrnod gorffen o 23 Gorffennaf.

4.13 Roedd yr 20 o ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno'n cynnwys:

- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a ddywedodd *“Rydym yn cytuno â'r rhesymau dros y cynigion, yn enwedig oherwydd y problemau mae gwahaniaethau'n eu hachosi i ysgolion eraill a gynhelir sy'n rhannu gwasanaethau ag ysgolion pabyddol”* ond gan ychwanegu *“lle mae cytundeb cyffredinol o fewn y sector Catholig, a lle mae'r effaith ar ddysgwyr a theuluoedd wedi'i rheoli neu ei lleihau, byddem yn croesawu'r cyfle i aros ar agor, trwy gytundeb yr holl bartïon, yn ystod yr wythnos cyn y Pasg er mwyn helpu dysgwyr i baratoi'n briodol at ddathliadau'r Pasg”*.
- Estyn a ddywedodd nad oes ganddynt unrhyw farn benodol ar y cynigion, ond yn deall sut y gall cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion fod o fudd i ddysgwyr, eu teuluoedd a'u gwarcheidwaid a rhanddeiliaid eraill sy'n gysylltiedig ag addysg mewn ysgolion yng Nghymru.
- Un aelod a nododd fel “arall”, oherwydd ei fod yn credu bod gwyliau'r Pasg rhy hwyr yn y gwanwyn ac na fyddai gan bobl arian i fynd allan dros y Pasg a Chalan Mai.
- Roedd yr holl ymatebion eraill gan blant a phobl ifanc a ddywedodd fod y dyddiadau'n iawn ar y cyfan ond bod rhai'n ansicr am fod yn yr ysgol mor agos at y Nadolig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.14 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau. Byddai caniatáu i leiafrif o ysgolion bennu dyddiadau nad ydynt yn cyd-fynd â holl ysgolion eraill Cymru yn groes i'r egwyddor o gysoni. Fodd bynnag, wrth gydweithio i sicrhau cysondeb, y disgwyl yw y byddai materion yn ymwneud â gwyliau crefyddol yn un o'r ystyriaethau y byddai ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hystyried.

4.15 Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r sylw am gostau posib Gŵyl Banc y Pasg a Chalan Mai ar deuluoedd, a bod y Pasg yn rhy hwyr yn y Gwanwyn. Fodd bynnag, dyma'r dyddiadau a ddewiswyd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol ac 83 o'r 86 o hysbysiadau gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig. Roedd y 3 hysbysiad arall yn cynnig dyddiad hwyrach.

Cwestiwn 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Byddem yn croesawu'ch safbwyntiau ar effaith bosibl ein holl gynigion ar:

- i) anabledd
- ii) hil
- iii) rhyw ac ailbennu rhywedd
- iv) oedran
- v) crefydd, cred a diffyg cred
- vi) cyfeiriadedd rhywiol
- vii) hawliau dynol.

4.16 O'r 20 (50%) o'r 40 o ymatebwyr a ddewisodd ymateb i'r cwestiwn hwn ar y ffurflen ymgynghori ar-lein:

- nid oedd 6 yn credu bod dyddiadau'r tymhorau yn effeithio o gwbl ar unrhyw agwedd ar gydraddoldeb.
- cyfeiriodd 5 at faterion hawliau dynol mewn perthynas â hawl y plentyn i fynychu'r Sioe Fawr, a thra bod CFfl Cymru yn cytuno â'r egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau, roeddent yn dadlau “....*the proposal will aid equality on the whole although we would argue that it is your human right and to some extent your religion to be able to attend the Royal Welsh Show as it is deep in the tradition of Wales and an event that is dear to so many families in Wales*”. Soniodd un arall bod dyddiadau tymhorau sy'n cwmpasu gwyliau'r Pasg yn gallu creu tymhorau anghyson o ran hyd sydd, er nad yn effeithio'n uniongyrchol ar hawliau dynol plant, yn gallu cael effaith negyddol ar eu haddysg.
- dywedodd 5 ymatebwr fod y dyddiadau'n effeithio ar yr Wythnos Sanctaidd a bod rhai Ysgolion Catholig o bosib am dreulio'r Wythnos Sanctaidd yn yr ysgol. Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd “*Neither the proposed dates nor the originally submitted dates allow for schools to be open during Holy Week. Seven of our eight voluntary aided schools submitted the same preferred dates as the Council for the Easter closure*”.
- Roedd y pedwar ymateb arall yn ymwneud ag ysgolion ar agor Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd un ymatebwr yn credu ei bod hi'n deg i bawb aros yn yr ysgol hyd at yr

Wythnos Sanctaidd, ond cael amser i ffwrdd wedyn i ddathlu gyda'r teulu. Roedd ymatebwr arall yn dweud mai Llywodraeth Cymru biau'r ddyletswydd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dywedodd un awdurdod lleol ei fod yn sgrinio'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.17 Cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig (sy'n cynnwys Ysgolion Catholig) biau'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ysgolion, ond mae ganddynt ddyletswydd bellach i gydweithio er mwyn sicrhau bod y dyddiadau hyn naill ai'r un fath neu mor debyg â phosib. O'r gwaith hysbysu, nodwyd bod 47 (94%) o'r 50 o Ysgolion Catholig a gyflwynodd hysbysiadau wedi cytuno i gyd-fynd â'u hawdurdod lleol, sef cau ysgolion yn ystod yr Wythnos Sanctaidd.

4.18 Cynhaliwyd asesiad trylwyr o effaith Deddf Addysg Cymru 2014 yn ei chyfanrwydd ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ar gynigion i ddeddfu ar gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. Bydd hyn yn cael ei ddiweddarw wedi'r broses hon o gysoni dyddiadau tymhorau, a byddant ar gael ar-lein.

Cwestiwn 3 – Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau byddai cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2018/19 yn cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) **gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii) **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth ydych chi'n feddwl byddai'r effeithiau? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol cael eu lliniaru?

4.19 Dewisodd 18 (45%) o'r 40 o ymatebwyr i'r ffurflen ymateb ar-lein ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd 9 yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.
- Dywedodd tri ymatebydd y gallai'r ffaith nad ydynt yn yr ysgol Ddydd Gŵyl Dewi gael effaith negyddol ar y Gymraeg, gydag un athro'n dweud fod y diwrnod hwn yn cael ei ddefnyddio i hybu iaith a diwylliant Cymraeg. Roedd pum ymatebydd yn ategu, gan fod yr iaith yn rhan mor annatod o'r Sioe Fawr, y gallai'r ffaith fod ysgolion ar agor am ddiwrnod gael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y gallai cysoni dyddiadau tymhorau fod o fudd i'r Gymraeg, gan ddweud *"Harmonising school term dates results in all schools remaining open or closed at the same times during the year.....As a result, joint working between schools can be facilitated and there may be particular potential benefits for partnerships between Welsh-medium and neighbouring English-medium schools. Therefore, a potential positive impact could result in improved opportunities for people/pupils to use Welsh within the school day in all schools"*.

Cwestiwn 4 – Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2018/19 cael ei lunio neu ei newid fel:

- (i) y bydd effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**
 - (ii) na fydd effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
- Ymatebodd 14 o 40 (35%) i'r cwestiwn hwn. Nid oedd tri'n credu y byddai'n cael unrhyw effaith, tra cyfeiriodd pump at gwestiwn 3 wrth ateb. Nid oedd tri yn gweld unrhyw effaith. Roedd tri ymateb arall yn cyfeirio at y Sioe Fawr a Dydd Gŵyl Dewi, fel y gwnaethant yng nghwestiwn 3.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.20 Fel y nodwyd uchod, bydd cyfle i blant ac athrawon fynd i'r Sioe Fawr ar bob diwrnod heblaw'r dydd Llun cyntaf. Rydym hefyd yn deall pwysigrwydd Gŵyl Dewi i lawer o bobl, ond fel y nodwyd gan nifer uchod, efallai ei bod hi'n well gan bobl ddathlu'r achlysur gartref a gyda'u teuluoedd.

Cwestiwn 5 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Roedd ail gwestiwn y fersiwn plant a phobl ifanc yn eithaf tebyg yn gyffredinol ond yn cynnwys materion cydraddoldeb – *Hoffem feddwl sut y gallai'n ffordd ni o bennu dyddiadau tymhorau effeithio ar bobl ag anableddau, pobl o gredoau gwahanol neu faterion cydraddoldeb eraill. Ydych chi'n credu ein bod ni heb gynnwys rhywbeth?*

4.21 Penderfynodd 31 (25%) o'r 123 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn, ac roedd yr ymatebion yn cwmpasu pob math o bynciau gwahanol:

- Roedd pump ymateb gan awdurdodau lleol (4 gan gonsortïwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg) yn credu bod y gwaith o gydgyssylltu dyddiadau tymhorau yn eu hawdurdodau yn bwysig, a'u bod yn cefnogi'r syniad mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am osod dyddiadau tymhorau.
- Roedd pedwar ymateb yn awgrymu dyddiadau tymhorau gwahanol a thri arall yn awgrymu newid strwythur tymhorau, er enghraifft, lleihau hyd gwyliau'r haf ond cynyddu gwyliau'r Nadolig a hanner tymor.
- Nododd tri ymateb eu cefnogaeth i ddyddiadau tymhorau wedi'u cysoni, gydag un yn dweud bod hyn o fantais i deuluoedd mawr.
- Roedd tri arall yn ategu'r pryderon bod diwrnod cyntaf y Sioe Fawr yn cyd-daro â diwrnod olaf y tymor ysgolion.

- Roedd tri ymatebydd gan y fersiynau plant a phobl ifanc yn awgrymu gwyliau amgen ar gyfer dathlu Dydd Padrig Sant a noson Tân Gwylt.
- Awgrymodd dau ymatebydd y dylai Dydd Gŵyl Dewi fod yn ddiwrnod o wyliau cenedlaethol.
- Dywedodd dau ymatebydd fod gwyliau'r Pasg yn rhy hwyr. Mynegodd un y ffaith y dylem osgoi gorffen y tymor ar ddyddiau od, a chafwyd ymateb arall i'r ffaith fod yr ysgol yn gorffen yn rhy agos at y Nadolig.
- Ymatebodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon gyda sawl pryder gan gynnwys wythnosau byrrach, h.y. wythnos o lai na 3 diwrnod o ysgol, gan y gallai hyn gael effaith negyddol ar bresenoldeb a bod teuluoedd yn fwy tueddol o ddefnyddio'r amser hwn i dynnu eu plant o'r ysgol gan gredu nad ydynt o fawr o werth academiaidd ac er mwyn manteisio ar wyliau rhatach. Yr angen am gyfnodau digonol ar gyfer astudio cyn arholiadau a'r syniad o ailgyflwyno diwrnodau HMS ychwanegol er mwyn ystyried y goblygiadau hyfforddiant ychwanegol i athrawon sy'n golygu newidiadau yn y cwricwlwm, asesu a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ati.
- Mae'r NASUWT yn poeni am y defnydd o sesiynau gwyl yn hytrach na diwrnodau hyfforddiant ychwanegol, a hefyd yn awgrymu cynyddu'r diwrnodau HMS i 7, ond lleihau'r "diwrnodau disgyblion" gan ddau i 188.
- Atebodd un athro gan ddweud fod athrawon yn gynyddol o blaid cynnwys Dydd Iau Cablyd yn y gwyliau hanner tymor, a gofynnodd am ystyried hyn wrth baratoi amserlenni'r dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.22 Mae Deddf Addysg 2002 yn nodi hawl awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr/ysgolion sefydledig i bennu dyddiadau tymhorau. Gallai gwrthwneud yr hawl hon i bennu dyddiadau tymhorau gael ei weld fel camddefnydd o bwerau gan Weinidogion Cymru. Felly, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ar y sail bod awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a reolir/ysgolion sefydledig yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion ond hefyd fod dyletswydd arnynt i gydlynu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosib. Dim ond os na fydd unrhyw gysondeb y bydd Gweinidogion Cymru'n ymyrryd ac yn rhoi cyfarwyddyd ar ddyddiadau tymhorau. Y disgwyl yw, wrth benderfynu pa ddyddiadau i'w pennu, y byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried y dyddiadau y cawsant hysbysiad yn eu cylch yn flaenorol. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn rhoi cyfarwyddyd.

4.23 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r dasg o bennu dyddiadau tymhorau ddod yn haws bob blwyddyn, gan y bydd y broses yn aros yr un fath ac y dylai'r consortiwm/awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir/ysgolion sefydledig fod wedi sefydlu rhwydweithiau erbyn hyn i drafod, cytuno a chreu hysbysiadau ar gyfer eu hysgolion, a ddylai olygu bod y broses o bennu dyddiadau tymhorau yn haws bob blwyddyn.

4.24 Rydym yn nodi'r awgrymiadau i symud oddi wrth y model tri thymor neu newid hyd presennol y gwyliau (e.e. lleihau tymor yr haf a chael gwyliau hanner tymor hirach). Fodd bynnag, byddai gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith sylweddol ar gyflog ac amodau athrawon, sy'n fater heb ei ddatganoli. Byddai newid patrwm y flwyddyn ysgol hefyd yn cael

cryn effaith ar fywydau plant ysgol, eu teuluoedd, busnesau a'r gymdeithas yn gyffredinol hefyd. Byddai angen ymgynghori helaeth ar y mater hwn, ac nid yw'r cynnig hwn dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

4.25 Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pryderon ynghylch wythnosau byrrach a'r angen i ddysgwyr gael digon o amser i baratoi ar gyfer arholiadau, y polisi yng Nghymru yw ceisio cysoni dyddiadau tymhorau lle na lwyddwyd i wneud hyn, a pheidio gosod dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Byddai disgwyl i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion perthnasol ystyried materion yn ymwneud ag wythnosau byrrach a byddai disgwyl iddynt ystyried gosod tymhorau gweddol gyfartal o ran hyd a sicrhau digon o amser yn arwain at arholiadau. Mater i awdurdodau lleol drafod â'u gweithlu ysgolion fyddai cynnwys Dydd Iau Cablyd yn rhan o wyliau hanner tymor y Gwanwyn.

4.26 Mae diwrnodau HMS yn bwysig er mwyn cefnogi dysgu, addysgu ac asesu effeithiol. Mae athrawon yng Nghymru yn cael 5 diwrnod HMS yn rhinwedd Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol, a byddant yn parhau i fod ar gael. Mae angen ystyried sawl ffactor yn ofalus wrth ystyried diwrnodau ychwanegol. Mae anghenion hyfforddiant ar draws yr holl sector ysgolion yn amrywiol, o safbwynt amser a natur yr hyfforddiant sydd angen ei ddarparu a'r gwahanol leoliadau addysgol sy'n gysylltiedig. Hefyd, byddai unrhyw gynnydd mewn dyrannu diwrnodau hyfforddiant yn arwain at lai o ddyddiau dysgu i ddisgyblion, felly mae angen cydbwysu hynny yn erbyn colli cyfleoedd dysgu. Wrth ystyried y ffactorau hyn, mae'r 5 diwrnod statudol cyfredol ar gyfer hyfforddiant yn adnodd priodol a sylweddol ar gyfer holl ysgolion Cymru, ac nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno dyddiau ychwanegol ar hyn o bryd.

4.27 Mae'n sefyllfa ni o ran gwyliau yn ystod yn y tymor yn gyson. Mae rheoliadau yng Nghymru yn rhoi pwerau disgresiwn i benaethiaid ganiatáu absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor lle mae rhieni'n gofyn caniatâd. Ni ddylid caniatáu mwy na 10 diwrnod o wyliau ar gyfer hyn, heblaw dan amgylchiadau eithriadol. Gellir cyflwyno hysbysiad cosb benodedig er mwyn mynd i'r afael ag achosion rheolaidd o ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol a dylai awdurdodau lleol gael tystiolaeth gadarn cyn cyflwyno cosb.

5. Y ffordd ymlaen

5.1 Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y Gweinidog yn ystyried yr adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion a'i ganfyddiadau wrth benderfynu ar y cyfeiriad parhaol ar gyfer dyddiadau tymhorau ysgol 2018/19, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2017.

6. Rhestr o'r ymatebwyr

Ysgol Gynradd Llwynocrwn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Gwynedd
Matthew Hamar (rhiant)
Ysgol Gynradd Libanus
Ysgol Penycae
NAHT Cymru
Y Gwasanaeth Addysg Gatholig
NUT Cymru
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion
Ysgol Gyfun Gymraeg Gartholwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
8 disgybl o Ysgol Gynradd Llanharan
Ysgol Gymunedol Heolgerrig (Cyngor yr Ysgol)
Ysgol Gynradd Llanmartin (Cyngor yr Ysgol)
Ysgol Iau'r Porth (Cyngor yr Ysgol)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Trealaw
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf. (Cyfarwyddwyr)
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf. (Sir Benfro)
ASCL Cymru
CFFI Cymru
NASUWT Cymru
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf. (Ceredigion)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Ysgol Greenhill
59 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Iscoed
Ysgol Henry Richard Tregaron (Cyngor yr Ysgol)
8 disgybl Ysgol Gymraeg Ifor Hael
Cyngor Sir Fynwy

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod roedd 11 yn dymuno aros yn ddienw.

Atodiad A: Hysbysiadau o dymhorau ysgol y cytunwyd arnynt

<u>Grwpiau Awdurdodau Lleol</u>	
<u>Grŵp A Awdurdodau Lleol</u>	<u>Grŵp B Awdurdodau Lleol</u>
Ynys Môn	Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr	Caerffili
Caerdydd	Sir Fynwy
Sir Gâr	Casnewydd
Ceredigion	Torfaen
Conwy	
Sir Ddinbych	
Sir y Fflint	
Gwynedd	
Merthyr Tudful	
Castell-nedd Port Talbot	
Powys	
Sir Benfro	
Rhondda Cynon Taf	
Abertawe	
Bro Morgannwg	
Wrecsam	

Atodiad B: Grwpiau o awdurdodau lleol

Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol awdurdodau lleol ar gyfer 2018/19		
Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol	Grŵp awdurdodau lleol A	Grŵp awdurdodau lleol B
<i>Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol</i> <i>2017-18</i>	Dydd Llun 3 Medi 2018	Dydd Llun 3 Medi 2018
<i>Gwyliau hanner tymor yr Hydref (h.y. y dyddiadau pan <u>nad</u> yw'r disgyblion yn yr ysgol)</i>	Dydd Llun 29 Hydref 2018 i Ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018	Dydd Llun 29 Hydref 2018 i Ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018
<i>Gwyliau'r Nadolig (h.y. y dyddiadau pan <u>nad</u> yw'r disgyblion yn yr ysgol)</i>	Dydd Llun 24 Rhagfyr 2018 i Ddydd Gwener 4 Ionawr 2019	Dydd Llun 24 Rhagfyr 2018 i Ddydd Gwener 4 Ionawr 2019
<i>Hanner tymor y Gwanwyn (h.y. y dyddiadau pan <u>nad</u> yw'r disgyblion yn yr ysgol)</i>	Dydd Llun 25 Chwefror 2019 i Ddydd Gwener 1 Mawrth 2019	Dydd Llun 18 Chwefror 2019 i Ddydd Gwener 22 Chwefror 2019
<i>Gwyliau'r Pasg (h.y. y dyddiadau pan <u>nad</u> yw'r disgyblion yn yr ysgol)</i>	Dydd Llun 15 Ebrill 2019 i Ddydd Gwener 26 Ebrill 2019	Dydd Llun 15 Ebrill 2019 i Ddydd Gwener 26 Ebrill 2019
<i>Hanner tymor yr Haf (h.y. y dyddiadau pan <u>nad</u> yw'r disgyblion yn yr ysgol)</i>	Dydd Llun 27 Mai 2019 i Ddydd Gwener 31 Mai 2019	Dydd Llun 27 Mai 2019 i Ddydd Gwener 31 Mai 2019
<i>Diwrnod olaf y flwyddyn ysgol</i> <i>201-19</i>	Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019	Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019